

Swydd:	<b>Pennaeth Ystadegau ac Ymchwil</b>
Adrodd i	Cyfarwyddwr Gweithredol
Lleoliad:	Swyddfeydd Data Cymru, Caerdydd
Cyflog:	Gradd 6 (£46,080 - £54,914)
Math o gontract:	Parhaol. Mae'n bosibl yr ystyriwn lenwi'r swydd hon i ddechrau drwy secondiad tymor penodedig 2 flynedd.

## Y swydd

Rydym yn creu rôl newydd, cyffrous i uwch-reolwr yn y sefydliad. Rydym yn chwilio am ymgeisydd eithriadol sy'n gallu cyfrannu at ein sgiliau presennol ym meysydd data, dadansoddi ystadegol ac ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn dod â gweledigaeth a brwdfrydedd i'n huchelgeisiau am gyflenwi newid sylweddol yn y gwerth ychwanegol a gyfrannwn at deulu llywodraeth leol ym maes gwyddor data ac ymchwil gymdeithasol.

Bydd y swydd hon yn rhan o'n tîm a leolir yng Nghaerdydd sy'n darparu cymorth i awdurdodau a'u partneriaid ledled Cymru. Gan gynnig arweinyddiaeth i dîm cynyddol sy'n cynnwys uwch ystadegydd, gwyddonydd data, ymchwilydd cymdeithasol a swyddog ystadegol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn datblygu ein gwaith ystadegol ac ymchwil ymhellach ac yn llywio'n hymagwedd strategol yn y maes hwn.

Mae datblygu ein swyddogaeth ystadegau ac ymchwil wrth graidd ein cynllun strategol. Bydd deiliad y swydd felly yn chwarae rhan allweddol hefyd mewn rheoli a datblygu'r sefydliad, gan gynnwys sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i gefnogi meysydd hyn ein busnes yn effeithiol.

## Swyddogaethau'r swydd hon

Gan arwain cyflenwi ystod o wasanaethau i gefnogi ein gwaith, bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â gwaith perthnasol a allai gynnwys:

- Cyfrannu at reolaeth y sefydliad, gan gynnwys dirprwyo dros y Cyfarwyddwr Gweithredol ar faterion ystadegol ac ymchwil;
- Arwain a datblygu'r gallu ystadegol ac ymchwil o fewn ein sefydliad;
- Arwain ein hadolygiad cyfredol o brosesau ac arferion, gan sicrhau bod y rhain yn effeithlon ac yn gadarn ac yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau;
- Darparu uwch arweinyddiaeth i brosiectau sy'n cynnwys casglu, dadansoddi a defnyddio data perthnasol, yn fewnol ac o fewn sefydliadau cwsmeriaid, er mwyn deall anghenion a hybu gwelliant gwasanaethau;
- Cyfrifoldeb dros sicrhau ansawdd allbynnau'n gweithgareddau ystadegol ac ymchwil;
- Rhoi cyngor perthnasol i gydweithwyr yn fewnol ac ar draws teulu ehangach llywodraeth leol;
- Datblygu a chynnal rhwydwaith effeithiol o gysylltiadau ar draws llywodraeth leol a chanolog ac asiantaethau allweddol eraill;
- Rheoli unrhyw staff sy'n adrodd i'r swydd; ac
- Ymgymryd ag unrhyw waith perthnasol arall yn ôl yr angen.

## **Manyleb berson**

Rydym yn chwilio am ystadegydd neu ymchwilydd brwdfrydig, cymwys, profiadol sy'n dymuno cymryd y cam nesaf yn eu gyrfa. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o reoli ac ymgymryd ag ymchwil a chymhwyso dadansoddi ystadegol yn effeithiol mewn sefyllfaoedd byd go iawn. Gyda sgiliau rhyngbersonol o'r radd flaenaf, bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gallu cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol i ystod o gynulleidfaoedd, er enghraifft, i esbonio canfyddiadau ymchwil, neu herio defnydd data. Yn ddefnyddol bydd gan yr ymgeisydd brofiad hefyd o reoli staff a chyllidebau, mewn amgylchedd ystadegol neu ymchwil yn ddefnyddol.

## ***Cymwyseddau technegol***

- Addysg hyd lefel gradd mewn ystadegau a/neu ymchwil ffurfiol, neu feddu ar brofiad perthnasol;
- Gallu i gymhwyso egwyddorion ystadegol ac ymchwil priodol i broblemau;
- Gallu i gymhwyso gwybodaeth dechnegol yn gywir, gan gynghori eraill ar ddefnydd priodol data;
- Gallu i roi cyngor ymarferol ar sut i ddadansoddi a chyflwyno data yn effeithiol, gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd priodol lle bo angen;
- Gallu i gynghori'r sawl nad ydynt yn ystadegwyr gan ddefnyddio iaith annhechnegol; a
- Hyddysg iawn yn nefnydd pecynnau meddalwedd MS Office.

## ***Cymwyseddau ymddygiadol***

Cyfeiriwch at ein "Fframwaith Cymwyseddau" am fanylion y cymwyseddau sy'n ofynnol. Cymwyseddau Gradd 6 sy'n berthnasol i'r swydd hon.